# Goruchwylio a chefnogi aelodau’r tîm

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion goruchwylio wrth gefnogi aelodau’r tîm. Mae'n ymdrin â’r rolau llesiant, diogelu, rheoli, cyfryngu a datblygu sy’n gysylltiedig â goruchwylio. Mae'r camau allweddol yn cynnwys paratoi, cyflawni ac adolygu’r dulliau goruchwylio, a chynnal cofnodion ac adroddiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi systemau, gweithdrefnau ac arferion ar waith wrth oruchwylio aelodau'r tîm
2. paratoi ar gyfer goruchwylio mewn ffordd a fydd yn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl
3. trafod agendâu a rennir a chytundebau ysgrifenedig ag aelodau’r tîm
4. nodi a chytuno ar rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a therfynau’r broses a’r berthynas oruchwylio
5. gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r tîm i greu amgylcheddau cadarnhaol a diogel at ddibenion goruchwylio sy'n hybu trafodaeth agored, myfyrdod ac adborth adeiladol
6. cefnogi aelodau'r tîm i fyfyrio ar eu cyfraniad at ganlyniadau cadarnhaol i unigolion
7. cefnogi aelodau'r tîm i fyfyrio a bod yn berchen ar eu cyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn unigolion a hybu llesiant
8. rhoi adborth adeiladol i aelodau’r tîm ynghylch eu gwybodaeth, eu gwerthoedd a’u hymarfer
9. galluogi aelodau'r tîm i adolygu a rheoli eu llwyth gwaith a’u blaenoriaethau
10. ysgogi aelodau'r tîm i gydweithio wrth wneud penderfyniadau a rheoli newid
11. galluogi aelodau'r tîm i asesu a rheoli risg
12. cydnabod effaith emosiynol ymarfer ar aelodau'r tîm ac archwilio dulliau o hybu gwytnwch, strategaethau ymdopi a hunanofal
13. rhoi egwyddorion a strategaethau ar waith i gefnogi aelodau'r tîm i reoli sefyllfaoedd heriol
14. hybu aelodau’r tîm i gymryd cyfrifoldeb dros safon eu gwaith a chynnal a gwella eu gwybodaeth a’u sgiliau
15. gweithio mewn partneriaeth ag aelodau’r tîm i nodi eu hanghenion dysgu a datblygu, a’u canlyniadau
16. cwblhau cynlluniau datblygiad personol a phroffesiynol gydag aelodau'r tîm i gwrdd â’u hanghenion dysgu a datblygu a'u canlyniadau
17. gweithio mewn partneriaeth ag aelodau’r tîm i integreiddio dysgu newydd o fewn eu hymarfer
18. gweithio mewn partneriaeth ag aelodau’r tîm i fonitro, myfyrio a gwerthuso cynnydd tuag at eu hanghenion dysgu a datblygu a’u canlyniadau
19. cael gafael ar gymorth ychwanegol ar gyfer aelodau’r tîm pan fyddant yn

wynebu heriau o ran safon eu gwaith, a chynnal a gwella eu gwybodaeth a’u sgiliau
20. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer goruchwylio aelodau’r tîm
21. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau wrth oruchwylio a chefnogi aelodau’r tîm

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwrpas a manteision goruchwylio
2. y gwahanol fathau a modelau goruchwylio
3. sut mae alinio goruchwylio â gweledigaeth, canlyniadau a gwerthoedd y gweithle
4. rôl goruchwyliaeth o ran gwella canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau
5. rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a therfynau'r broses a'r berthynas oruchwyliol
6. sut mae creu perthnasoedd gwaith, amgylchedd a therfynau sy'n hybu ymgysylltu a diogelwch seicolegol
7. sut mae hybu trafodaeth agored, myfyrio ac adborth adeiladol yn y berthynas oruchwyliol
8. pam mae cyfathrebu proffesiynol yn bwysig yn y berthynas oruchwyliol
9. rôl goruchwyliaeth o ran hybu gweithio mewn partneriaeth
10. sut mae arwain aelodau'r tîm i ddatblygu ymarfer a bod yn berchen ar eu cyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn unigolion a hybu llesiant
11. sut mae arwain eraill i ddatblygu ymarfer sy'n hybu cymryd risgiau cadarnhaol
12. sut mae cefnogi aelodau'r tîm wrth gynllunio llwyth gwaith a blaenoriaethau
13. sut mae rhoi adborth adeiladol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i aelodau'r tîm ynghylch eu gwybodaeth, eu gwerthoedd a'u hymarfer
14. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth oruchwylio aelodau'r tîm
15. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth oruchwylio aelodau'r tîm
16. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar anghenion goruchwylio a chymorth, a chanlyniadau aelodau'r tîm
17. dylanwad diwylliant a chefndir aelodau'r tîm ar eu hanghenion goruchwylio a chymorth, a'u canlyniadau
18. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol wrth weithio mewn sefyllfaoedd heriol neu gymhleth gyda thimau
19. egwyddorion a strategaethau rheoli gwrthdaro
20. sut mae cyfryngu tensiynau rhwng aelodau'r tîm a gwerthoedd y sefydliad
21. technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn flaengar
22. technegau hyfforddi a mentora a sut y gellir eu defnyddio wrth oruchwylio
23. sut mae eich grym a'ch dylanwad fel goruchwyliwr yn gallu effeithio ar y berthynas oruchwyliol
24. pwysigrwydd cefnogi eich llesiant eich hun a llesiant aelodau'r tîm

25. dulliau cefnogi aelodau'r tîm i nodi eu hanghenion dysgu a datblygu, a'u canlyniadau
26. yr ystod o adnoddau dysgu a datblygu sy'n cwrdd â'r dulliau dysgu a ffafrir gan aelodau'r tîm
27. sut mae trafod cynlluniau dysgu a datblygu, a chanlyniadau
28. sut mae cydweithio ag aelodau'r tîm i integreiddio dysgu newydd o fewn ymarfer
29. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r tîm i fonitro, myfyrio a gwerthuso cynnydd tuag at anghenion dysgu a datblygu, a chanlyniadau
30. y cymorth ychwanegol ar gyfer llesiant, safon gwaith, a gwybodaeth a sgiliau aelodau'r tîm
31. rôl goruchwyliaeth o ran rhoi polisïau cwyno a disgyblu ar waith, a rheoli perfformiad
32. pwrpas a gofynion cofnodi trefniadau goruchwylio
33. sut mae gwerthuso a datblygu eich safonau proffesiynol eich hun o ran ymarfer goruchwyliol
34. damcaniaethau sy'n berthnasol i oruchwylio a chefnogi aelodau'r tîm
35. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer goruchwylio a chefnogi aelodau'r tîm
36. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth oruchwylio a chefnogi aelodau'r tîm
37. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth oruchwylio aelodau'r tîm, a sut i fynd i'r afael â hyn

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Goruchwylio a chefnogi aelodau'r tîm

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD340 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Goruchwylio, Cefnogi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |